

# JIWBILÎ I'R DDAEAR



**2020**  
LLAWLYFR DATHLU



**TYMOR Y  
CREAD**

# CYNNWYS

Cyflwyniad .....	4
Gwahoddiad Arweinwyr Ffydd i ymuno â Thymor y Cread .....	5
Rhestr Gyfeirio Digwyddiadau .....	8
Thema Tymor y Cread 2020: Jiwbilî i'r Ddaear .....	10
Gweddi Tymor y Cread 2020 .....	14
Syniadau ar gyfer dathlu Tymor y Cread .....	15
Lluniau a fideos .....	15
Cyfryngau cymdeithasol a blogiau .....	15
Gweddiö ac addoli .....	15
<b>Gwasanaeth Gweddi Eciwmenaidd ar gyfer Tymor y Cread .....</b>	<b>17</b>
Gweddi agoriadol.....	17
Brawddegau agoriadol.....	17
Cân .....	17
Salm 104 .....	18
Cyffes ( <i>yn seiliedig ar Lefiticus 25:1-25</i> ) .....	19
Darlleniad o'r Ysgrythur gyda phregeth neu gyfraniadau gan aelodau o'r gynulleidfa i ddilyn.....	20
Cân .....	20
Datgan ein ffydd .....	21
Offrwm a gweddi'r offrwm.....	21
Gweddiâu.....	21
Gweddi'r Arglwydd .....	23
Y Fendith .....	23
Cynnwys y cread yng ngwasanaethau'r Sul .....	24
Cynnal Gwasanaeth Gweddi yn yr Awyr Agored.....	25



Astudiaeth Feiblaidd .....	25
Gweddi i gloi .....	26
Trefnu Tro neu Bererindod y Cread.....	26
Ymgysylltu â'ch amgylchedd ecolegol lleol drwy'r Hunanarholiad Daear hon....	27
Cynnal digwyddiad cynaliadwyedd .....	28
Hybu byw mewn modd cynaliadwy .....	30
Ymarfer y Llwybr ar gyfer Cynulleidfaoedd, Cymunedau ac Eglwysi tuag at Economi Bywyd a Chyfiawnder Ecolegol.....	33
<b>Eiriolaeth: Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd sy'n galw am adferiad .....</b>	<b>34</b>
<b>Calendr digwyddiadau byd-eang .....</b>	<b>39</b>
1 Medi: Dydd y Cread / Dydd Gweddi Byd-eang dros y Cread.....	39
21 Medi: Dydd Rhyngwladol Glanhau'r Glannau .....	39
4 Hydref: Gŵyl Sant Ffransis.....	39
<b>Ynghylch Tymor y Cread.....</b>	<b>41</b>
Hanes .....	41
Y Pwyllgor Llywio .....	41
<b>Cyfranwyr .....</b>	<b>43</b>



# Cyflwyniad

Diolch i chi am ddod â'ch cymuned ynghyd ar gyfer Tymor y Cread. Bob blwyddyn rhwng 1 Medi a 4 Hydref, bydd y teulu Cristnogol yn uno ar gyfer y dathliad byd-eang hwn o weddi a gweithredu i warchod ein cartref ar y cyd.

Fel dilynwyr Crist ledled y byd, rydym oll wedi'n galw i ofalu am greadigaeth Duw. Gwelwn fod ein lles ninnau wedi'i blethu â'i lles hithau. Rydym yn ymlawenhau yn y cyfle hwn i ofalu am ein cartref ar y cyd a'r chwirydd a'r brodyr sy'n byw ynddo.

Eleni, thema'r tymor yw **"Jiwbilî i'r Ddaear"**. Fe'ch gwahoddwn i ystyried y berthynas hanfodol rhwng caniatáu gorffwys i'r Ddaear a ffyrdd o fyw ecolegol, economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol. Yn ystod y flwyddyn arbennig hon, amlygodd effeithiau pellgyrhaeddol y pandemig COVID-19 byd-eang yr angen am systemau cyfiawn a chynaliadwy. Rydym yn dyheu am y dychymyg moesol sy'n nodweddu'r Jiwbilî.

Bydd y llawlyfr hwn yn eich cynorthwyo i ddysgu am y tymor ac i gynllunio ar gyfer ei ddathlu. Mae rhagor o adnoddau, gan gynnwys gweminarau a gwasanaethau gweddi, grŵp Gweplyfr a lluniau, ar gael ar-lein. Ewch i [SeasonOfCreation.org](http://SeasonOfCreation.org) i weld yr holl ddeunyddiau.

## Pwyllgor Llywio Tymor y Cread

**actalliance**



**Lausanne/WEA**  
Creation Care Network



**TYMOR Y  
CREAD**

# Gwahoddiad Arweinwyr Ffydd i ymuno â Thymor y Cread

Annwyl Frodyr a Chwiorydd yng Nghrist,

*Cysegra'r hanner canfed flwyddyn, a chyhoedda ryddid trwy'r wlad i'r holl drigolion; bydd hon yn flwyddyn jiwbilî ichwi. (Lefiticus 25:10, BCND)*

Eleni fe wnaeth lledaeniad y coronafeirws newydd dros y byd dynnu sylw, mewn ffyrdd alaethus, ein dynoliaeth gyffredin a pha mor gysylltiedig yw ein heconomïau, ein strwythurau gwleidyddol, ein cyfundrefnau gofal iechyd, ein cadwyni cynhyrchu bwyd a'n rhwydweithiau cludiant. Dangosodd y pandemig hefyd fod yr holl blethwaith wedi'i wreiddio yn y Ddaear ac wedi'i gyfyngu gan allu'r Ddaear i ddiwallu ein gofynion economaidd ac ecolegol. Canlyniad yw effeithiau anghyfiawn newid hinsawdd i'n hanallu i ganfod cydbwysedd cynaliadwy ar gyfer y plethwaith hwn.

O 1 Medi hyd 4 Hydref, bydd y teulu Cristnogol yn dathlu rhodd ddaionus y greadigaeth. Dechreuodd y dathliad byd-eang hwn ym 1989 gyda'r Batriarchaeth Eciwmenaidd yn cydnabod Dydd Gweddi dros y Cread a bellach mae'r gymuned eciwmenaidd ehangach yn ymuno yn y dathlu.

Yn ystod Tymor y Cread, byddwn yn uno fel un teulu yng Nghrist, gan ddathlu'r rhwymau sy'n ein cysylltu â'n gilydd "ac â phob creadur byw" (Genesis 9:10). Mae'r teulu Cristnogol yn dathlu'r Tymor drwy dreulio amser mewn gweddi, ystyried ffyrdd o fyw mewn modd cynaliadwy yn ein cartref ar y cyd a chodi'n lleisiau yn y cylch cyhoeddus.

Mae'r Ysgrythurau'n dechrau gyda Duw yn datgan bod yr holl greadigaeth "yn dda iawn" (Genesis 1:31). Fel cyd-greaduriaid a rhai sydd i fod i ofalu am gread Duw, gelwir bodau dynol i warchod ac i feithrin daioni'r greadigaeth (Genesis 2:15, Jeremeia 29:5-7). Mae ein galwad i warchod ac i feithrin bywyd yn ymwneud â chynaliadwyedd systemau ecolegol, economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol. Rhaid cadw cydbwysedd cyfiawn rhwng yr agweddau hyn ar fywyd er mwyn gwarchod iechyd y Ddaear a'r holl greaduriaid.

Yn unol â'r ddoethineb honno, roedd Cyfraith Moses yn cynnwys darparu ar gyfer y Saboth. Ar y seithfed dydd o bob wythnos, nid oedd gofyn i bobl Dduw gynhyrchu na defnyddio. Gallai'r anifeiliaid, a'r tir ei hun, hefyd orffwyso, gan anrhydeddu'r Creawdwr drwy ganiatáu gorffwys i'r greadigaeth. Yn dilyn y seithfed seithfed blwyddyn (blwyddyn 49), disgwylid i bobl Dduw gysegru blwyddyn i'r cyfiawnder adferol ecolegol, cymdeithasol ac economaidd hwn. Jiwbilî i'r Ddaear.



Wrth i ni fyw mewn byd ôl-COVID-19, a allwn ni ddychmygu ffyrdd newydd cyfiawn a chynaliadwy o fyw sy'n rhoi i'r Ddaear y gorffwys y mae hi ei angen, sy'n cynnig digon i ddiwallu anghenion pawb ac sy'n adfer cynefinoedd ac yn adnewyddu amrywiaeth fiolegol? Bydded i Ddoethineb Sanctaidd ysbrydoli ein dychymyg.

Yn y Llawlyfr Dathlu hwn ar gyfer Tymor y Cread, cynigiwn adnoddau yn ysbryd eciwmenaidd ein galwad ar y cyd i warchod y Ddaear a chynnal yr amodau sy'n galluogi bywyd i ffynnu. Anogwn y teulu Cristnogol cyfan i ymuno â ni ar yr adeg arbennig hon i weddio, i fyfyrrio ac i weithredu'n eofn i sicrhau Jiwbilî ar gyfer y Ddaear.

Yn y gobaith sy'n deillio o ras, gweddiwn y bydd yr Arglwydd sydd i ni'n Greawdwr, yn Gynhaliwr ac yn Iachawdwr yn cyffwrdd ein calonnau a chalon y teulu dynol yn ystod Tymor y Cread eleni.

Yng ngras Duw,

***Aelodau Pwyllgor Ymgynghorol Tymor y Cread:***

*Yr Esgob Marc Andrus, Esgobaeth Califfornia, Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America*

*Y Parchedig Ed Brown, Care of Creation a Chatalydd Lausanne ar gyfer Gofal dros y Greadigaeth*

*Y Doethor Celia Deane-Drummond, Cyfarwyddwr, Sefydliad Ymchwil Laudato Si', Neuadd Champion, Prifysgol Rhydychen*

*Monsignor Bruno-Marie Duffé, Ysgrifennydd Awdurdod y Fatican ar gyfer Hybu Datblygiad Dynol Cyflawn*

*Josianne Gauthier, Ysgrifennydd Cyffredinol, CIDSE*

*Y Parchedig Norm Habel, Prosiect Tymor y Cread, Adelaide*

*Yr Esgob Nick Holtam, Esgob Caersallwg, Gweithgor Eglwys Loegr ar yr Amgylchedd*

*Y Doethor Hefin Jones, Aelod o'r Pwyllgor Gwaith, Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd*

*Serafim Kykotis, Metropolitan Zimbabwe, Archesgobaeth Uniongred Roegaid Zimbabwe ac Angola*

*Yr Esgob Mark Macdonald, Yr Esgob Brodorol Cenedlaethol Anglicanaidd, Eglwys Anglicanaidd Canada*

*Y Tad Martin Michalíček, Ysgrifennydd Cyffredinol, Consilium Conferentiarum Episcoporum Europae*

*Ms Necta Montes, Ysgrifennydd Cyffredinol, Ffederasiwn Myfyrwyr Cristnogol y Byd*



*Y Chwaer Patricia Murray, Ysgrifennydd Gweithredol, Undeb Rhyngwladol yr Uchel Famau Cyffredinol*

*Y Doethor Alexandros K Papaderos, Cyngorydd Patriarchaethau Eciwmenaidd Caer Gystennin*

*Paulo Ueti, Cyngorydd Diwinyddol a Chyfarwyddwr Rhanbarthol America Ladin, Y Cynghair Anglicanaidd*

*Y Canon Ddoethor Ruth Valerio, Cyfarwyddwr Eirioli a Dylanwadu Byd-eang, Tearfund*



**TYMOR Y  
CREAD**

# Rhestr Gyfeirio Digwyddiadau

Mae'r rhestr gyfeirio hon yn nodi'r camau i'w cymryd er mwyn cynnal digwyddiad llwyddiannus. Yn gryno: cynlluniwch yn dda, sicrhewch gefnogaeth eang, gwnewch yn siŵr bod eraill yn gwybod am y digwyddiad, a gwnewch waith ôl-ddilynol yn dilyn y digwyddiad.

Dyma restr fanwl, gam wrth gam, i'ch cynorthwyo gyda chynnal eich dathliad:

- ❑ Ffurfiwch grŵp o rhwng un a phedwar o bobl i arwain gyda chi. Bydd y pwyllgor digwyddiad hwn yn rhannu'r gwaith, yn datblygu syniadau ac yn gweithio gyda'ch gweinidog/offeiriad a'r gynulleidfa i sicrhau bod cefnogaeth eang i Dymor y Cread yn eich eglwys.
- ❑ Lluniwch gynllun cyffredinol ar gyfer eich digwyddiad. Edrychwch ar yr awgrymiadau ar gyfer digwyddiadau, ac un ai dewiswch yr un sy'n iawn ar eich cyfer chi neu ddatblygu un arall.
- ❑ Trefnwch drafodaeth rhwng y gweinidog/offeiriad ag arweinwyr cymunedol. I baratoi pawb ar gyfer y cyfarfod, dosbarthwch y llythyr oddi wrth yr arweinwyr ffydd, gwybodaeth am y Tymor a dolen i'r wefan ymlaen llaw. Maent oll ar gael yn [SeasonOfCreation.org](http://SeasonOfCreation.org).
- ❑ Yn y cyfarfod, dechreuwch drwy ddiolch i bawb am y gwaith da maent yn ei wneud yn barod i warchod y cread. Dywedwch yr hoffech chi a'ch pwyllgor wirfoddoli ar ran yr eglwys i arwain digwyddiad Tymor y Cread. Sicrhewch adborth gan bawb ac ysgrifennwch nodiadau i gadw cofnod o'r sylwadau.
- ❑ Diweddarwch eich cynllun mewn ymateb i'r sylwadau a rennir. Sicrhewch gyda gweinyddwr eich eglwys bod dyddiad, amser a lleoliad y digwyddiad ar gael.
- ❑ Cofrestrwch eich digwyddiad yn [SeasonOfCreation.org](http://SeasonOfCreation.org). Pan fyddwch wedi ei gofrestru, bydd eich dathliad i'w weld ar y map Tymor y Cread byd-eang. Byddwn hefyd yn cadw mewn cysylltiad â chi drwy e-bost i ddarparu rhagor o adnoddau.
- ❑ Siaradwch ag arweinwyr eraill yn yr eglwys i gael adborth ac i sicrhau eu cefnogaeth. Gallai'r pwyllgor tir, y cyfarwyddwr addysg grefyddol, yr





arweinydd cerdd ac addoliad a'r cyngor plwyfol ddod yn rhan o'r cynllunio, yn dibynnu ar natur eich digwyddiad.

- ❑ Os yw eich digwyddiad yn un eciwmenaidd neu ryng-grefyddol, cysylltwch â'r addoldai yr hoffech gydweithio â hwy. Gofynnwch am gyfarfod a chyflwynwch eich cynllun mewn ffordd debyg i'r modd y gwnaethoch hynny gyda'ch gweinidog/offeiriad eich hun.
- ❑ Ar ôl cwblhau'r cynllun, gwnewch yn siŵr bod eich cynulleidfa chithau a chynulleidfaedd unrhyw addoldai rydych yn cydweithio â hwy yn ymwybodol ohono. Yr adeg ddelfrydol i gychwyn yw mis cyn y digwyddiad. Mae'r cam hwn yn hollbwysig er mwyn sicrhau cynulleidfa dda a digwyddiad ysgogol. Defnyddiwch y templedau ar gyfer cyhoeddiad bwletin, taflen a phostiad cyfryngau cymdeithasol sydd i'w cael o [SeasonOfCreation.org](http://SeasonOfCreation.org).
- ❑ Ychydig ddyddiau cyn y digwyddiad, casglwch ynghyd bopeth fydd ei angen arnoch. Cysylltwch ag unrhyw gyd-drefnwyr i wneud yn sicr bod ganddynt bopeth maent hwythau ei angen. Gwnewch un ymdrech arall i godi ymwybyddiaeth yn eich eglwys drwy ofyn i'ch gweinidog/offeiriad wneud cyhoeddiad o'r pulpud a gosod bwrdd mewn man cyhoeddus i ddsbarthu taflenni ar ddiwedd y gwasanaethau.
- ❑ Cynhaliwch eich digwyddiad. Mwynhewch!
- ❑ Ar ôl y digwyddiad, anfonwch nodyn at yr holl arweinwyr a gwirfoddolwyr i ddiolch iddynt. Gadewch i'ch cynulleidfa wybod am unrhyw ganlyniadau neu gamau pellach sy'n deillio o'r digwyddiad.
- ❑ Rhannwch luniau o'ch digwyddiad yn [SeasonOfCreation.org](http://SeasonOfCreation.org). Gellir rhannu'r rheini'n gyhoeddus a byddant yn ysbrydoli ac yn addysgu pobl o gwmpas y byd.
- ❑ Llenwch y ffurflen adrodd am ddigwyddiad yn [SeasonOfCreation.org](http://SeasonOfCreation.org).



# Thema Tymor y Cread 2020:

## Jiwbilî i'r Ddaear

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Llywio Eciwmenaidd sy'n llunio'r Llawlyfr Dathlu Tymor y Cread hwn yn awgrymu thema. Y thema ar gyfer 2020 yw *Jiwbilî i'r Ddaear*.

Mae newid yn yr hinsawdd yn ganlyniad i gyfuniad o drachwant, anghydraddoldeb a distrywio Daear Duw. Dewiswyd thema Jiwbilî ar gyfer Tymor y Cread eleni gan ei fod yn adleisio'r tair thema gysylltiedig hynny. Mae Jiwbilî'n adeg i ymrwrthod â gordddefnyddio adnoddau ac â chyfundrefnau economaidd sy'n seiliedig ar dwf economaidd parhaus ar draul y Ddaear a thlodion y byd. Mae Jiwbilî'n adeg pan fydd gofyn i'r rhai sydd wedi defnyddio fwyaf ddigolledu'r rhai sydd wedi dioddef fwyaf. Mae Jiwbilî'n adeg i ganiatáu i'r tir orffwys ar ôl cael ei weithio'n barhaus ac yn adeg i adfer ecosystemau a phobl.

Mae gwreiddiau Jiwbilî yn y ddoethineb ddwyfol bod gofyn cadw cydbwysedd cyfiawn a chynaliadwy rhwng gofynion cymdeithasol, economaidd ac ecolegol. Pan gamddefnyddir un elfen er cynyddu twf un arall, bydd yr holl gyfundrefn yn y pen draw'n dioddef. Pan fo un rhan o gymuned y Ddaear dan bwysau, effeithir ar bob rhan arall. Yn 2020, amlygodd pandemig y coronafeirws newydd wirionedd hynny ar raddfa fyd-eang. Tra mae'r profiad o fyw drwy'r argyfwng COVID-19 yn ein cyfeirio'n ôl at yr angen i warchod cyfiawnder, gall y gwersi a ddysgwn ein cyfeirio ymlaen at yr angen am Jiwbilî a'n hysgogi i geisio adfer y cydbwysedd yn yr union systemau hynny sy'n cynnal bywyd.

*Cysegrr'r hanner canfed flwyddyn, a chyhoedda ryddid trwy'r wlad i'r holl drigolion; bydd hon yn flwyddyn jiwbilî ichwi, a bydd pob un ohonoch yn dychwelyd i'w dreftadaeth ac at ei dylwyth. (Lefiticus 25:10, BCND)*

Ystyr Jiwbilî yw 'corn gafr'. Byddid yn canu'r corn i gyhoeddi dechreuad adeg o waredigaeth gyffredinol. Roedd blwyddyn y Jiwbilî yn cynnwys diddymu dyledion, pan fyddid yn dadwneud anghyfiawnderau'r hanner can mlynedd a aeth heibio. Roedd hefyd yn adeg pryd y cai'r tir orffwys.

Mae cysylltiadau eglur rhwng thema Jiwbilî â'r ideolegau sylfaenol sy'n hyrwyddo ecsplotio anghyfiawn, megis agweddau neoryddfrydol a chyfalafol tuag at



economi'r byd. Mae'n cyfuno'r angen am godi llais proffwydol ynghylch anghyfiawnder hinsawdd â gweithredu i adfer y Ddaear. Mae thema Jiwbilî yn cydnabod yr angen am gydraddoldeb, cyfiawnder a chynaliadwyedd, a symud tuag at economïau cynaliadwy. Mae'n talu teyrnged i ymgyrch Jiwbilî 2000, a alwodd yn llwyddiannus am ddileu dyledion gwledydd y De ac am ailddosbarthu cyfoeth. Ac mae 2020 yn nodi hanner can mlynedd ers cynnal Dydd y Ddaear am y tro cyntaf, pan anwyd y mudiad amgylcheddol.

### Argyfwng Hinsawdd

Rydym yng nghanol argyfwng hinsawdd. Mae sawl astudiaeth wedi dangos nad yw'r byd yn agos at gyrraedd y targedau lleihau arylliadau a addawyd. Noda adroddiad diweddaraf y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) mai ond drwy newidiadau "cyflym a sylweddol" yn economi'r byd, o faint a graddfa nas gwelwyd erioed o'r blaen, y gellir cadw at y terfyn o 1.5°C. Mae hi felly'n bryd i ni gymodi â'r cread drwy edifeirwch ymarferol a gweithredu ar frys. Mae Tymor y Cread yn adeg pryd y gallwn gydnabod ein bod yn croesi ffiniau tyngedfennol, gan fygwth bywydau'r rhai mwyaf bregus heddiw a pheryglu bywydau cenedlaethau'r dyfodol hefyd. Fel pobl sy'n arddel ffydd, fe'n gelwir i sefyll yn erbyn anghyfiawnder hinsawdd mewn ffyrdd proffwydol.

Bydd Tymor y Cread 2020 hefyd yn gyfle pwysig i'r teulu Cristnogol godi llais unedig ar gyfer gweithredu cyflym ac uchelgeisiol cyn y bydd y Cenhedloedd Unedig yn cynnal Cynhadledd Partïon y (COP) am y chweched tro ar hugain i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae COP 26 yn arbennig o bwysig, gan y disgwylir i wledydd gyhoeddi sut y byddant yn gweithredu Cytundeb Hinsawdd Paris (ac os byddant yn methu gwneud hynny'n foddhaol). Mae'n adeg pan elwir cymunedau ffydd i gefnogi ac i herio arweinwyr eu gwledydd parthed rhoi amcanion uchelgeisiol ac arwyddocaol ar waith. Mae hefyd yn adeg pryd y mae'n rhaid i ni wrando ar leisiau proffwydol pobl ifanc.

*Yna ar y degfed dydd o'r seithfed mis pâr ganu'r utgorn ym mhob man; ar Ddydd y Cymod pâr ganu'r utgorn trwy dy holl wlad. (Lefiticus 25:9, BCND)*

### Galwad gobaith proffwydol

Fel pobl sy'n arddel ffydd fe'n gelwir i gyhoeddi gobaith, fel yn y Jiwbilî. Rydym yn galaru, gan ein bod yn clywed ym mhobman y cread yn ochneidio. Felly rydym yn



gweithredu fel ceidwaid y cread, ac yn canu utgorn gobaith, gan mai eiddo'r Arglwydd yw'r Ddaear a phopeth sy'n byw arni. Gwyddom fod Duw wedi addo adnewyddu'r Ddaear hon.

Yn ystod y cyfnod hollbwysig ac anodd hwn, rydym yn cydnabod ein swyddogaeth fel pobl sy'n arddel ffydd i fynegi gobaith yng nghanol yr argyfwng presennol ac yn sefyll fel tystion proffwydol. Heriodd Iesu ni i ddewis rhwng Duw a Mamon. Er mwyn y Ddaear a'r holl greaduriaid, nid oes gennym ddewis ond ymlafnio am gyfiawnder (Micha 6:8).

Mae Tymor y Cread 2020 yn gyfle i fyfyrion ar ystyr Jiwbilî heddiw, yn enwedig wrth i ni edrych ymlaen tuag at COP26. Sut fyddwn ninnau, fel unigolion ac fel yr Eglwys, yn gwneud y canlynol?

- ❑ Cydnabod mae Duw sy'n berchen ar yr holl Ddaear, a'n holl 'eiddo' ninnau.
- ❑ Rhyddhau'r hyn sydd gennym a'i roi'n ôl i Dduw, mewn ystyr ysbrydol ac ymarferol fel ei gilydd.
- ❑ Cydnabod ein bod yn gwbl ddibynol ar Dduw a'i gread.
- ❑ Derbyn darpariaeth Duw, mewn amynedd ac ymddiried.

Beth mae'n ei olygu i'r Eglwys gyhoeddi 'blwyddyn ffafr yr Arglwydd'? Sut allwn ni ogoneddu Duw am y gobaith sydd gennym yng Nghrist, sy'n adfer ac yn gwaredu'r Ddaear? Pa newidiadau a welwn ar gyfer y tlodion ac ar gyfer y tir a wnaethom yn gaethwas i ni? Rydym ymhell oddi wrth ddarlun o ddarpariaeth Jiwbilî. Pan fo Ddaear Duw yn dioddef, bydd pobl Dduw'n dioddef hefyd. Mae Tymor y Cread 2020 yn annog eglwysi a Christnogion i gyfranogi yn y ffyrdd canlynol:

- ❑ Gweddi: gan gynnwys moli Duw am ei gynhaliaeth, edifarhau am ein trachwant a'n cyfraniad ninnau tuag at ddioddefaint y Ddaear a dioddefaint ein cymdogion, ymbil dros y rhai sydd mewn perygl oherwydd anrhefn hinsawdd, a chysegro popeth sydd gennym yn ôl i Dduw.
- ❑ Gweithredu: adnabod y ffyrdd rydym ninnau wedi cam-drin y Ddaear, ac ymrwymo i weithredu mewn ffyrdd gwahanol fel unigolion ac fel cymunedau o addolwyr.



- ❑ Eiriolaeth: annog gwladwriaethau i sicrhau bod cyfiawnder hinsawdd a chymryd camau tuag at sefydlu economi werdd yn rhan o'u cynlluniau adfer economaidd yn dilyn COVID-19.
- ❑ Gweithredu: cymryd rhan mewn gweithredu sifil i roi pwysau ar Lywodraethau i osod targedau cenedlaethol uchelgeisiol (cyfraniadau a benodir yn genedlaethol) ar gyfer COP26.



# Gweddi Tymor y Cread 2020

Greawdwr Bywyd,

Ar dy air, dygodd y Ddaear blanhigion yn dwyn hadau a choed o bob rhywogaeth yn dwyn ffrwyth. Roedd yr afonydd, y mynyddoedd, y mwynau, y moroedd a'r coedwigoedd yn cynnal bywyd. Edrychai llygaid pawb tuag atat ti i ddiwallu anghenion popeth byw. A thrwy gydol amser mae'r Ddaear wedi cynnal bywyd. Trwy gylchredau'r blaned o ddyddiau a thymhorau, adnewyddiad a thwf, rwyf yn agor dy law i roi i ni greaduriaid ein bwyd yn yr amser priodol.

Yn dy ddoethineb, caniateaist Saboth; amser bendithiol i orffwysu mewn diolchgarwch am y cyfan a roddaist; amser i ni ymryddhau oddi wrth ein gordddefnyddio gorffwyll; amser i ganiatáu i'r tir ac i'r holl greaduriaid orffwysu rhag baich cynhyrchu. Ond y dyddiau hyn, mae'n ffordd o fyw yn gwthio'r blaned y tu hwnt i'w therfynau. Mae ein chwant am dwf a'n cylch diderfyn o gynhyrchu a defnyddio'n di-hysbyddu'n byd. Dinistrir y coedwigoedd ac mae'r uwchbridd yn erydu, y meysydd yn methu, yr anialdir yn ehangu, y moroedd yn suro a'r stormydd yn cryfhau. Nid ydym wedi caniatáu i'r tir ddathlu'r Saboth, ac mae'r Ddaear yn ochneidio am adnewyddiad.

Yn ystod Tymor y Cread eleni, gofynnwn i ti roddi i ni'r glewder i gadw Saboth i'n blaned. Nertha ni â'r ffydd i ymddiried yn dy ragluniaeth. Ysbrydola ni â'r parodrwydd creadigol i rannu'r hyn a roddwyd i ni. Dysga ni i fod yn fodlon ar ddigon. Ac wrth i ni gyhoeddi Jiwbilî i'r Ddaear, anfon dy Ysbryd Glân i adnewyddu wyneb y cread.

Yn enw'r Un a ddaeth i gyhoeddi newyddion da i'r holl greadigaeth, Iesu Grist.  
Amen.



# Syniadau ar gyfer dathlu Tymor y Cread

Mae llawer o wahanol ffyrdd o ddathlu'r Tymor. Mae rhwydwaith eciwmenaidd Tymor y Cread wedi awgrymu rhai syniadau, sydd i'w gweld isod. Cofiwch ymweld â [SeasonofCreation.org](http://SeasonofCreation.org) am syniadau eraill a gwybodaeth am ymgyrchoedd, gan gynnwys mentrau ar gyfer enwadau penodol.

Wrth i chi gynllunio eich digwyddiad, cofiwch ei gofrestru ar y wefan yn [SeasonOfCreation.org](http://SeasonOfCreation.org). Pan fyddwch yn ei gofrestru, bydd eich dathliad yn ymddangos ar fap byd-eang Tymor y Cread i ysbrydoli eraill ac i ddenu mwy o bobl i'ch digwyddiad. Byddwn hefyd yn cysylltu â chi i gynnig rhagor o adnoddau.

**Sut bynnag y byddwch yn dathlu, cofiwch rannu eich profiad.**

## Lluniau a fideos

- ❑ Cofiwch dynnu lluniau o'ch cymuned ar waith. Bydd pobl ledled y byd yn gweld eich lluniau, a gallent ysbrydoli gweddïo a gweithredu i warchod y greadigaeth (*cofiwch ofyn caniatâd i rannu lluniau pobl a pheidiwch â thynnu lluniau agos o blant heb sicrhau caniatâd rhiant/gofalwr*). Uwchlwythwch eich lluniau, os gwelwch yn dda, i [SeasonOfCreation.org](http://SeasonOfCreation.org).

## Cyfringau cymdeithasol a blogiau

- ❑ Postiwch luniau a storïau wrth i chi gynllunio ac yn ystod eich dathliad. Cofiwch dagio eich postiad neu drydariad gyda #SeasonofCreation, a bydd yn ymddangos ar wefan Tymor y Cread.
- ❑ Ymunwch â'n [cymuned Gweplyfr](#) Saesneg i rannu eich profiadau.
- ❑ Ysgrifennwch bostiad blog am ddathliad Tymor y Cread eich cymuned.

## Gweddïo ac addoli

*Mae gweddï'n ganolog i'n bywydau fel Cristnogion. Mae gweddïo gyda'n gilydd yn dyfnhau ein perthynas â'n ffydd ac yn meithrin doniau ysbrydol newydd. Ys dywedodd Iesu wrthym, "lle y mae dau neu dri wedi dod ynghyd yn fy enw i, yr wyf yno yn eu canol" (Mathew 18:20).*



*Bydd yr awgrymiadau canlynol yn eich cynorthwyo i lunio gwasanaeth gweddi neu fawl yn ystod Tymor y Cread.*

## Cynnal gwasanaeth gweddi eciwmenaidd

Mae cynnal gwasanaeth gweddi'n ffordd syml a hardd o ddathlu'r Tymor. Er bod croeso i chi gynnal gwasanaeth gweddi o fewn eich cymuned eglwysig eich hun, mae'r Tymor hwn yn cynnig cyfle gwych i gydgyssylltu â Christnogion y tu hwnt i'ch enwad neu eich rhwydwaith chi eich hun.

Os credwch y byddai diddordeb ganddynt, cysylltwch â chymunedau Cristnogol lleol o enwadau gwahanol i'ch un chi a gofynnwch i'r gweinidog neu i'r cydlynnydd cyfiawnder a fyddai'n hoffi cydweithio i gynnal gwasanaeth gweddi ar y cyd ar gyfer Tymor y Cread. Os byddwch yn anfon neges e-bost, cofiwch gynnwys dolen at [wefan](#) Tymor y Cread ynghyd â gwybodaeth ynghylch y Tymor.

Dechreuwch gyda'r rhestr gyfeirio digwyddiadau. Gofynnwch i'r holl gymunedau sy'n cymryd rhan hysbysebu'r gwasanaeth. Bydd darlledu gwybodaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau print ac ar y we yn sicrhau y daw llawer i'r digwyddiad ac yn golygu y bydd yn ddathliad yn egniol ac amrywiol. Mae taflenni, hysbysiadau bwletin a chyhoeddiadau o'r pulpud enghreifftiol ar gael ar-lein. Penodwch un ai un o'r clerigion neu grŵp o glerigion o'r eglwysi sy'n cymryd rhan i arwain y gwasanaeth gweddi.

Dyma enghraifft o wasanaeth gweddi a luniwyd ar gyfer Tymor y Cread 2019 y gallwch ei ddefnyddio a'i addasu ar gyfer eich cyd-destun chi.





# Gwasanaeth Gweddi Eciwmenaidd ar gyfer Tymor y Cread:

## Jiwbilî i'r Ddaear

### Gweddi agoriadol

*Dechreuwch eich gwasanaeth drwy oleuo kannwyll a gosod gwrthrychau naturiol eraill o gwmpas y safle sy'n cynrychioli amaethyddiaeth neu natur wyllt o fewn eich amgylchedd lleol. Gweddiwch i agor y gwasanaeth:*

Deuwn ynghyd yn enw'r Triol Dduw, Creawdwr, Iachawdwr a Chynhaliwr y Ddaear a'i holl greaduriaid!

Mawl a fo i'r Drindod Sanctaidd. Sain a bywyd yw Duw, Creawdwr y bydysawd, Ffynhonnell pob bywyd, yr Un y cân yr angylion iddo; Goleuni rhyfeddol yr holl ddirgelion y gŵyr bodau dynol amdanynt ac na wyddant amdanynt, a'r bywyd sydd yn byw ym mhopeth.

*(Hildegard o Bingen, o'r drydedd ganrif ar ddeg)*

### Brawddegau agoriadol

*Un* Deuwn ynghyd ar lun y Creawdwr

**Llawer** sydd yn gymuned o gariad.

*Un* Deuwn ynghyd yn enw'r Iachawdwr

**Llawer** sy'n cymodi'r holl gread.

*Un* Deuwn ynghyd ym mhresenoldeb Rhoddwr Bywyd

**Llawer** sy'n ysgogi bywyd newydd ac yn adnewyddu bywyd.

### Cân

*Canwch emyn sy'n moli Duw fel Creawdwr. Ceisiwch ddod o hyd i emyn sy'n gyffredin i'r holl draddodiadau sy'n cymryd rhan. Cliciwch [yma](#) am restr o emynau ar thema'r cread.*



**TYMOR Y  
CREAD**

## Salm 104

*Un* Fy enaid, bendithia'r Arglwydd!

***Llawer*** Y mae'r holl greaduriaid yn dibynnu arnat ti i roi iddynt eu bwyd yn ei bryd. Pan agori dy law, cânt eu diwallu'n llwyr.

*Un* Yr wyt yn gwneud i'r lleuad nodi'r tymhorau; ac i'r haul wybod pryd i fachlud. Trefnaist dywyllwch, fel bod nos, a holl anifeiliaid y goedwig yn ymlusgo allan.

***Llawer*** Y mae'r holl greaduriaid yn dibynnu arnat ti i roi iddynt eu bwyd yn ei bryd. Pan agori dy law, cânt eu diwallu'n llwyr.

*Un* Mae'r llewod ifanc yn rhuo am ysglyfaeth, ac yn ceisio eu bwyd oddi wrth Dduw. Ond pan gyfyd yr haul, y maent yn mynd ymaith, ac yn gorffwyo yn eu ffeuuau. A daw pobl allan i weithio, ac at eu llafur hyd yr hwyrnos.

***Llawer*** Y mae'r holl greaduriaid yn dibynnu arnat ti i roi iddynt eu bwyd yn ei bryd. Pan agori dy law, cânt eu diwallu'n llwyr.

*Un* Yr wyt yn dyfrhau'r mynyddoedd o'th balas. Yr wyt yn gwneud i ffynhonnau darddu mewn hafnau, yn gwneud iddynt lifo rhwng y mynyddoedd; rhônt ddiod i holl fwystfilod y maes.

***Llawer*** Y mae'r holl greaduriaid yn dibynnu arnat ti i roi iddynt eu bwyd yn ei bryd. Pan agori dy law, cânt eu diwallu'n llwyr.

*Un* Yr wyt yn gwneud i'r gwellt dyfu i'r gwartheg, a phlanhigion at wasanaeth pobl, i ddwyn allan fwyd o'r ddaear, a gwin i lonni calonnau pobl, o'lew i ddisgleirio'u hwynebaw, a bara i gynnal eu calonnau.

***Llawer*** Y mae'r holl greaduriaid yn dibynnu arnat ti i roi iddynt eu bwyd yn ei bryd. Pan agori dy law, cânt eu diwallu'n llwyr.

*Un* Digonir y ddaear trwy dy ddarpariaeth.

***Llawer*** Y mae'r holl greaduriaid yn dibynnu arnat ti i roi iddynt eu bwyd yn ei bryd. Pan agori dy law, cânt eu diwallu'n llwyr.

***All*** Bydded gogoniant yr Arglwydd dros byth!



## Cyffes (yn seiliedig ar Lefiticus 25:1-25)

Molwn di o Dduw, am y Ddaear sy'n cynnal bywyd. Trwy gylchredau'r blaned o ddyddiau a thymhorau, adnewyddiad a thwf, rwyf yn agor dy law i roi i'r holl greaduriaid ein bwyd yn ei bryd. Yn dy ddoethineb trefnaist Saboth er mwyn i'r tir gael gorffwyso. Ond y dyddiau hyn, mae'n ffordd o fyw yn gwthio'r blaned y tu hwnt i'w therfynau. Mae ein chwant am dwf a'n cylch diderfyn o gynhyrchu a defnyddio'n dihyssbyddu'n byd. Dinistrir y coedwigoedd ac mae'r uwchbridd yn erydu, y meysydd yn methu, yr anialdir yn ehangu, y moroedd yn suro a'r stormydd yn cryfhau. Gorfodir bodau dynol ac anifeiliaid i ffoi er mwyn ceisio diogelwch. Nid ydym wedi caniatáu i'r tir ddathlu'r Saboth, ac mae'r Ddaear yn ochneidio am adnewyddiad. Ac felly cyffeswn. Dduw trugarog a chyfiawn,

*Un* Rwyf yn dweud wrthym bod rhaid i'r tir orffwyso, wedi ei ryddhau o faich cynhyrchu.

**Llawer** Cyffeswn i ni fynnu bod y Ddaear yn cynhyrchu y tu hwnt i'w therfynau a'n caethiwed i ddyheu am fwy o gynnyrch fyth.

*Un* Fe'n gelwi i oedi rhag hau, tocio a medi mewn ffyrdd sy'n distrywio'r pridd.

**Llawer** Cyffeswn i ni ysu'n orffwyll fwyd ac ynni.

*Un* Rwyf yn ein sicrhau y gall yr hyn a gynhyrcha'r tir ein bodloni.

**Llawer** Cyffeswn i ni fethu â chredu y gallwn ffynnu o fewn terfynau'r Ddaear i roi.

*Un* Rwyf yn datgan mai mewn digon mae ein diogelwch.

**Llawer** Cyffeswn na fuom yn ddigon dewr i wrthsefyll chwedl twf di-ben-draw.

*Un* Dywedi wrthym na ddylid gwerthu'r tir yn barhaol, oherwydd eiddot tithau yw'r tir, a phopeth sydd ynddo.

**Llawer** Cyffeswn i ni feddwl am y greadigaeth fel rhywbeth i ni ei defnyddio, yn hytrach na fel rhodd i'w thrysori.

*Un* Fe'n gelwi i adael digon o ffrwyth ar y winwydden ac yn y caeau i fwydo'n cymdogion a'r anifeiliaid, ac i atgyflenwi'r Ddaear.



**Llawer** Cyffeswn i ni fethu â rhannu'r hyn a dderbyniwn o'r Ddaear.

*Un* Rwyf yn ein galw i weithredu'n deg a chyfiawn.

**Llawer** Cyffeswn ein diffyg ffydd, ac nad ydym yn dy garu di â'n holl galon, ein holl nerth a'n holl feddwl, nac yn caru ein cymdogion, yn bobl ac yn greaduriaid eraill, fel ni ein hunain.

*Un* Tro ni oddi wrth ofn ac amheuaeth,

**Llawer** a rhyddha ni i ddychmygu bywyd wedi'n cymodi â'r Ddaear a'r holl greaduriaid, drwy Newyddion Da Iesu Grist, yn enw yr hwn y gweddïwn.

*Un* Y mae'r Ysbryd yn ein cynorthwyo yn ein gwendid. Oherwydd ni wyddom ni sut y dylem weddio, ond y mae'r Ysbryd ei hun yn ymbil trosom ag ocheneidiau y tu hwnt i eiriau, ac y mae Duw, sy'n chwilio calonnau dynol, yn deall bwriad yr Ysbryd, mai ymbil y mae tros y saint yn ôl ewyllys Duw (Rhufeiniaid 8:26–27).

**Llawer Amen.**

*(Addaswyd o Ffederasiwn Lutheraidd y Byd)*

## **Darlleniad o'r Ysgrythur gyda phregeth neu gyfraniadau gan aelodau o'r gynulleidfa i ddilyn**

Gweler y darlleniadau thematig a awgrymir isod, neu dewiswch ddarlleniad yn lleol sy'n adleisio cyd-destun penodol eich gwasanaeth gweddi. Awgrymir darnau o'r Ysgrythur ar wefan Tymor y Cread.

### **Cân**

Canwch emyn sy'n dathlu bioamrywiaeth y cread. Ceisiwch ddod o hyd i emyn sy'n gyffredin i'r holl draddodiadau sy'n cymryd rhan. Cliciwch [yma](#) am restr o emynau ar thema'r cread, diolch i *Interfaith Power and Light*.



## Datgan ein ffydd

*Un* Rydym yn perthyn i'r Creawdwr ac fe'n gwnaed ar ei lun a'i ddelw.

**Llawer** **Yn Nuw rydym yn anadlu, yn Nuw rydym yn byw, yn Nuw rydym yn rhannu bywyd y cread cyfan.**

*Un* Rydym yn perthyn i Iesu Grist, gwir eicon Duw a'r ddynoliaeth.

**Llawer** **Ynddo ef mae Duw yn anadlu, ynddo ef mae Duw yn byw, drwyddo ef fe'n cymodir ninnau.**

*Un* Rydym yn perthyn i'r Ysbryd Glân, sy'n rhoi i ni fywyd newydd ac sy'n nerthu ein ffydd.

**Llawer** **Yn yr Ysbryd mae cariad yn anadlu, yn yr Ysbryd mae'r gwirionedd yn byw, ac mae anadl Duw yn ein hysgogi'n barhaus.**

*Un* Rydym yn perthyn i'r Drindod Sanctaidd sy'n un ym mhopeth ac yn Dri yn Un.

**Llawer** **Yn Nuw y creïr pawb ohonom, yng Nghrist yr achubir pawb ohonom, yn yr Ysbryd yr unir pawb ohonom.**

*(Per Harling)*

## Offrwm a gweddi'r offrwm

Efallai byddwch am wneud casgliad. Gallai hynny fod i godi arian ar gyfer prosiect neu weinidogaeth benodol sy'n hybu adferiad ecolegol neu ryw agwedd ar gyfiawnder hinsawdd, neu sy'n tynnu sylw at blanhigion ac anifeiliaid o'ch ardal fel ffordd o godi ymwybyddiaeth o'r gorffwys sydd ei angen ar eich cynefinoedd lleol.

## Gweddiâu

*Un* Gweddiwn mewn diolchgarwch am ein Mam y Ddaear y mae pob bywyd yn gwreiddio ynddi, ein Brawd yr Haul y mae ei ynni'n cynnal bywyd, ein Chwaer y Dŵr sy'n ein hadfer a'n hadfywio, ninnau a'n cyd-greaduriaid yr ydym yn byw yn eu plith, dros y rhai y'n gelwir i drin ac i gynnal yr ardd hon.



**TYMOR Y  
CREAD**

**Llawer Goleua ein calonnau ac aros gyda'th fyd.**

*Un* Dduw pob gallu, rwyf yn bresennol yn y bydysawd cyfan ac yn dy holl greaduriaid. Rwyf yn cofleidio'n dyner bopeth sy'n bod. Arllwys arnom rym dy gariad, fel y bydd i ni warchod bywyd a phrydferthwch. Llenwa ni â thangnefedd, fel y byddwn fyw fel brodyr a chwiorydd, heb achosi loes i neb. Ysbryd Creadigol,

**Llawer goleua ein calonnau ac aros gyda'th fyd.**

*Un* O Dduw'r tlodion, cynorthwya ni i achub y rhai sydd wedi'u hepgor a'u hanghofio ar y Ddaear hon, ac sydd mor werthfawr yn dy olwg di. Tyrd ag iachâd i'n bywydau, fel y byddwn yn gwarchod y byd yn hytrach na'i wneud yn ysglyfaeth, ac fel y byddwn yn hau harddwch yn hytrach na llygredd a lladd. Cyffwrdd â chalonnau'r rhai sydd yn ceisio ond elw i'w hunain ar draul tlodion y Ddaear. Ysbryd Creadigol,

**Llawer goleua ein calonnau ac aros gyda'th fyd.**

*Un* Dysga ni i ddarganfod gwerth pob dim, i fod yn llawn rhyfeddod a myfyrdod, i gydnabod bod undod hanfodol rhyngom â phob creadur wrth i ni deithio tuag at dy oleuni tragwyddol. Ysbryd Creadigol,

**Llawer goleua ein calonnau ac aros gyda'th fyd.**

*Un* Yn sgil pandemig byd-eang COVID-19, clyw lefain ein tosturi, ac iachâ ein byd a'i holl greaduriaid. Ysbrydola ein calonnau â dychmyg sanctaidd i ddeffro, wedi ein rhyddhau oddi wrth y rheidrwydd i gynhyrchu a defnyddio, i ddychmygu ffordd o fyw sy'n gyfiawn a chynaliadwy, lle bydd digon gan bawb a lle adferir popeth.

**Llawer Goleua ein calonnau ac aros gyda'th fyd.**

*Un* Yn ystod Tymor y Cread eleni, gofynnwn i ti roddi i ni'r glewder i gadw Saboth ar gyfer ein planed. Nertha ni â'r ffydd i ymddiried yn dy ragluniaeth. Ysbrydola ni â'r parodrwydd creadigol i rannu'r hyn a roddwyd i ni. Dysga ni i fod yn fodlon ar ddigon. Ac wrth i ni gyhoeddi Jiwbilî i'r Ddaear, anfon dy Ysbryd Glân i adnewyddu wyneb y tir.

**Llawer Goleua ein calonnau ac aros gyda'th fyd.**



*Un* Diolchwn i ti am fod gyda ni bob dydd. Gweddiwn y byddi'n ein calonogi yn ein hymdrech i sicrhau cyfiawnder, cariad a heddwch. Ysbryd Creadigol,

**Llawer** goleua ein calonnau ac aros gyda'th fyd. Amen.

*(Addaswyd o 'A Prayer for the Earth', y Pab Ffrancis, Laudato Si')*

## Gweddi'r Arglwydd

Ein Tad yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw;  
deled dy deyrnas;  
gwneled dy ewyllys,  
ar y ddaear fel yn y nef.  
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;  
a maddau inni ein troseddau,  
fel yr ym ni wedi maddau i'r rhai a droseiddodd yn ein herbyn;  
a phaid â'n dwyn i brawf,  
ond gwared ni rhag yr Un drwg.  
Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas,  
a'r gallu a'r gogoniant am byth.  
Amen.

## Y Fendith

Bydded i Dduw, a sefydlodd ddawns y cread,  
a ryfeddodd wrth lili'r maes,  
sy'n trawsnewid dryswch yn drefn,  
arwain ni i drawsnewid ein bywydau ninnau a bywyd yr Eglwys  
i adlewyrchu gogoniant Duw yn y cread.

*(Rhaglen Eco-gynulleidfaoedd Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon)*



## Cynnwys y cread yng ngwasanaethau'r Sul

Anogwch eich gweinidog/offeiriad i bregethu ynghylch y cread neu i gynnwys themâu yn ymwneud â'r cread o fewn y gweddïau yn ystod Tymor y Cread.

Bydd y syniadau canlynol o gymorth i'ch gweinidog/offeiriad neu arweinydd gweddi wrth baratoi pregeth neu lunio gweddïau. Mae thema wedi'i hawgrymu ar gyfer pob wythnos yn ystod Tymor y Cread. Rhestrir darnau i'w darllen o'r Hen Destament, y Salmu, y Testament Newydd a'r Efengylau ynghyd ag esboniad o'r modd y maent yn cysylltu â'r thema. Gellir defnyddio unrhyw rai neu'r cyfan ohonynt yn ystod y Tymor. Gellir gweld mwy o syniadau yn <http://www.sustainable-preaching.org/>.

Dyddiad	Testun	Thema
6 Medi 2020 <a href="#">14eg Sul ar ôl y Pentecost – Tymor y Cread 1</a>	<b>Darlleniad cyntaf:</b> Exodus 12:1-14 <b>Salm</b> 149 <b>Ail ddarlleniad:</b> Rhufeiniaid 13:8-14 <b>Yr Efengyl:</b> Mathew 18:15-20	Y Gorchymyn Mwyaf, Câr dy Gymydog
13 Medi 2020 <a href="#">15fed Sul ar ôl y Pentecost – Tymor y Cread 2</a>	<b>Darlleniad cyntaf:</b> Exodus 14:19–31 neu Sirach 27:30-28:9 <b>Salm</b> 114 <b>Ail ddarlleniad:</b> Rhufeiniaid 14:1–12 <b>Yr Efengyl:</b> Mathew 18:21–35	Gwarchod y Pethau sy'n Perthyn i Bawb
20 Medi 2020 <a href="#">16eg Sul ar ôl y Pentecost – Tymor y Cread 3</a>	<b>Darlleniad cyntaf:</b> Exodus 16:2-15 neu Eseia 55:6-9 <b>Salm:</b> 105:1-6, 37-45 <b>Ail ddarlleniad:</b> Philipiaid 1:21-30 <b>Yr Efengyl:</b> Mathew 20:1-16	Mae Digon ar gyfer ein Hangen, nid ein Trachwant
27 Medi 2020 <a href="#">17eg Sul ar ôl y Pentecost – Tymor y Cread 4</a>	<b>Darlleniad cyntaf:</b> Exodus 17:1–7 neu Eseciel 18:25-28 <b>Salm</b> 78:1–4,12–16 <b>Ail ddarlleniad:</b> Philipiaid 2:1–13 <b>Yr Efengyl:</b> Mathew 21:23–32	Rhodd Dŵr
4 Hydref 2020 Gŵyl Sant Ffransis	<b>Darlleniad cyntaf:</b> Salm 148:7-14 <b>Salm</b> 121 <b>Ail ddarlleniad:</b> Galatiaid 6:14-18 <b>Yr Efengyl:</b> Mathew 11:25-30	Ysbrydolrwydd y Cread





## Cynnal Gwasanaeth Gweddi yn yr Awyr Agored

Er mwyn dathlu cread Duw yn gyflawn, byddai'n dda, pan fo hynny'n ymarferol, i symud ein haddoliad y tu allan i adeilad ac i addoli yng nghyd-destun creadigaeth Duw – sydd eisoes yn addoli Duw yn huawdl achos bod pob creadur, a hyd yn oed y mynyddoedd, yr afonydd a'r coed yn addoli'r Arglwydd ond wrth wneud yr hyn y creodd Duw hwy i'w wneud. Efallai y byddwch am ystyried safle sydd ag arwyddocâd amgylcheddol. Os yw'n safle o harddwch naturiol arbennig, byddwch yn canolbwyntio ar ddiolch i Dduw ac ar ymrwymo i warchod y safle hwnnw ac eraill. Os yw'n safle lle bu niwed amgylcheddol, byddwch yn canolbwyntio ar gyffesu ein pechodau amgylcheddol ac ar ymrwymo i gymryd camau fydd yn iacháu ac yn adfer yr amgylchedd.

- ❑ Yn dibynnu ar eich dull addoli a'r tywydd, ystyriwch gynnal gwasanaeth anffurfiol neu oedfa Gymun fer.
- ❑ Ar gyfer yr offrwm, gofynnwch i blant ac oedolion gasglu symbolau o fyd natur a dod â hwy at y bwrdd sanctaidd fel "rhodd y ddaear a gwaith dwylo dynol" ochr yn ochr â'r bara a'r gwin.
- ❑ Cynhwyswch ennyd o dawelwch i wrando ar fawlgan y greadigaeth ac i ymuno'n ddi-eiriau â hi.
- ❑ Cynhwyswch ddarlleniadau o Eseia 65:17–25 neu ddarlleniadau addas eraill.
- ❑ Cynhwyswch alar am y modd rydym wedi cam-drin y cread, ac amser o wrando ar ochneidio'r cread (Rhufeiniaid 8:22) yn y Gyffes.
- ❑ Yn lle'r bregeth, ymrannwch yn grwpiau ar gyfer astudiaeth Feiblaidd fer.

## Astudiaeth Feiblaidd

Darllenwch Eseia 65:17–25: "Daear Newydd".

Pa faterion sy'n codi yn y darn hwn sy'n ymwneud â thlodi, anghyfiawnder a'r amgylchedd?

Rhannwch eich profiadau personol o'r materion hynny – pethau y gwyddoch amdanynt neu y bu i chi eu hwynebu yn ystod eich bywyd eich hun.

Beth yw eich gweledigaeth chi o Ddaear newydd, o Ddaear wedi'i hadnewyddu?



## Gweddi i gloi

**Gofynnaist ti** am fy nwylo fel y gallet eu defnyddio at dy ddibenion.  
Rhoddais hwy am ennyd, wedyn eu tynnu'n ôl, gan fod y gwaith yn galed.

**Gofynnaist ti** am fy ngenau i lefaru yn erbyn anghyfiawnder.

Rhoddais i ti fy sibrawd fel na fyddai cyhuddiad i'm herbyn.

**Gofynnaist ti** am fy mywyd fel y gallet weithio drwof.

Rhoddais ddarn bach ohonof fel na fyddwn yn ymroi gormod.

**Arglwydd**, maddau i mi am gynnig i ti fy ngwasanaeth

ond pan mae'n gyfleus i mi wneud hynny,

ond yn y lleoedd diogel,

ac ond yn y ffyrdd sy'n hawdd.

**Arglwydd**, maddau i mi, adnewyddda fi, iachâ fi, meithrin fi,

cryfha fi, anfon fi allan fel offeryn dy heddwch a'th gyfiawnder

fel y deallaf o ddifrif sut mae arwain fel gwas.

Amen.

(Joe Seramane, Christian Aid Lifelines, De Affrica)

## Trefnu Tro neu Bererindod y Cread

Gallech ystyried trefnu tro myfyriol yn yr awyr agored i ystyried rhodd creadigaeth Duw a'n hymateb ninnau o geisio cymundeb dyfnach â phopeth byw. Gallai hynny fod ar ffurf 'Via Creatio' neu Dro'r Creu, pan fyddwch yn myfyrio ar saith niwrnod y creu gan ddefnyddio gorsafoedd. Gallech hefyd drefnu pererindod mewn safle ecolegol o bwys, neu weddio gyda darnau o'r Ysgrythur neu weddiau sydd ar themâu ecolegol, megis drwy ddefnyddio'r [llaswyr ecolegol](#) hwn, a hynny wrth gerdded. Gallai eich pererindod hefyd ddiweddu gyda gwasanaeth gweddi, neu gyda'r Hunanarholiad Daear canlynol.



## Ymgysylltu â'ch amgylchedd ecolegol lleol drwy'r Hunanarholiad

### Daear hon:

Ffordd yw hunanarholiad neu *examen* o edrych ar wrthrych neu fod mewn rhyfeddod gweddigar. Drwy ymateb i gwestiynau, fe'ch gwahoddir i fyfyrion ar bresenoldeb Duw a daioni'r hyn rydych yn ei ystyried. Yn ystod Tymor y Cread eleni, ystyriwch fyfyrion ar ran o'ch amgylchedd ecolegol lleol. Gallwch wneud hynny ar eich pen eich hun, neu mewn grŵp.

Dewiswch safle naturiol neu amaethyddol ar gyfer eich myfyrdod. Coedwig. Afon. Stryd drefol gydag ardal naturiol. Parc mewn dinas. Cae ar fferm. Copa bryn. Edrychwch am rywle cyfforddus i orffwyso yn y lle hwnnw neu'n agos ato. Dechreuwch weddio ym mha ffordd bynnag sy'n naturiol i chi. Gwahoddwch ddoethineb sanctaidd i agor llygaid eich calon. Pan fyddwch yn barod, myfyriwch ar y cwestiynau canlynol:

#### **1. Byddwch yn ymwybodol o bresenoldeb Duw yn y fangre naturiol neu amaethyddol rydych yn myfyrion arni.**

Sut mae Duw yn bresennol yn y lle hwn? Sut mae'r holl fywyd rydych yn ei weld yn bodoli o fewn Ysbryd Duw? Sut ydych chi'n teimlo o wybod bod yr Ysbryd Glân wedi llenwi'r lle hwn dros oesoedd daearegol, ac wedi bod gyda phob creadur a fu yma ymhell yn y gorffennol, ei fod yma gyda chi'r eiliad hon, ac y bydd yr Ysbryd hwnnw gyda chreaduriaid yn y lle hwn yn y dyfodol? Sut ydych chi'n teimlo o wybod eich bod chi, Ddaearolyn, yn perthyn i'r lle hwn, eich bod wedi'ch gwneud o'r un carbon, yn anadlu'r un aer, yn dibynnu ar yr un cylchoedd a phrosesau bywyd, ac mai'r un Ysbryd, y Creawdwr, sy'n eich bywiocáu chithau?

#### **2. Myfyriwch ar gylchredau ecolegol y lle hwn, gan ddiolch am bopeth mae'n ei ddarparu.**

Pa gylchoedd maethynnau mae'r lle hwn yn eu cynnal? A yw'n gefndeuiddwr sy'n hidlo dŵr? A yw'n goedwig glaw (trofannol neu gollddail) sy'n cronni maethynnau? A oes yma weirglodd neu gae sy'n cronni nitrogen? Ai yw hwn yn safle gwyrdd sy'n amsugno carbon deuocsid ac yn glanhau'r aer? Pa blanhigion,



anifeiliaid, microbau a mwynfeydd sy'n cael lloches yma? Sut mae eu bodolaeth yn gwasanaethu'r holl Ddaear? Gadewch i ymdeimlad o ddiolchgarwch am y cyfan mae'r lle hwn yn ei ddarparu eich llenwi.

### **3. Sylwch ar yr hyn rydych yn ei deimlo wrth i chi fyfyrto ar freuder a iechyd y safle hwn.**

A yw'r ecosystem hon yn iach? Sut mae'r ecosystem hon mewn perygl o afiechyd? Beth sy'n allweddol ar gyfer cynnal sefydlogrwydd a chydbwysedd y lle hwn? Pa nodweddion arbennig a mathau o amrywiaeth y mae'n rhaid eu hamddiffyn er mwyn cadw'r cynefin hwn yn iach? Beth yw'r achosion straen sy'n bygwth cydbwysedd yr ecosystem arbennig hon? Sut ydych chi'n teimlo wrth ystyried breuder y bywyd sy'n dibynnu ar iechyd y lle hwn? Beth yw eich effaith chithau ar y cydbwysedd hwnnw?

### **4. Dewiswch un agwedd ar y safle a gweddiwch ynghylch hynny, ac am orffwys ac adnewyddiad i'r elfen dan sylw.**

Pan fyddwch yn meddwl am y gwahanol ffyrdd mae'r lle hwn yn dioddef straen, beth mae ei angen ar gyfer gorffwys, adferiad ac adnewyddiad? Beth mae'n rhaid ei warchod er mwyn i'r safle hwn iacháu ei hun? Pa nodweddion sydd angen eu hadfer? Gweddiwch dros y safle hwn, ac am y ddoethineb i ofalu amdano.

### **5. Ystyriwch beth fydd eich ymateb chi. Beth allwch chi ei wneud i leihau'r pwysau ar y safle ecolegol hwn neu i'w alluogi i gael mwy o orffwys?**

Ar sail eich hunanarholiad, sut ydych chi'n uniaethu â'r lle hwn? Beth ydych chi wedi ei ddirnad sydd ei angen i ofalu am y safle? Pa weithred drugarog fyddwch chi'n ei gwneud i hybu gorffwys ar gyfer y lle hwn?

## **Cynnal digwyddiad cynaliadwyedd**

*Mae cwmniaeth yn cyfoethogi'n profiad o'r byd naturiol. Trwy ymuno ag eraill yn ein cymuned, rydym yn rhannu llawenydd mwynhau'r greadigaeth yn ogystal â her gofalu amdani. Mae canfod nerth mewn undod yn egwyddor mae ein*



**TYMOR Y  
CREAD**

*Hysgrythurau'n ei dathlu, gan nodi "Y mae dau yn well nag un, oherwydd y maent yn cael tâl da am eu llafur; os bydd y naill yn syrthio, y mae'r llall yn gallu ei godi." (Pregethwr 4:9-10)*

*Bydd yr awgrymiadau canlynol o gymorth i chi wrth lunio digwyddiad cynaliadwyedd ar gyfer eich cymuned.*

## Glanhau dyfrffyrdd lleol

Mae glanhau dyfrffyrdd lleol yn ffordd bwysig o warchod y creaduriaid sy'n byw ynddynt. Mae dŵr yn gorchuddio 71% o wyneb y Ddaear, a gall llygredd a gwastraff gael effaith ddinistriol ar y rhywogaethau niferus – gan gynnwys bodau dynol – sy'n dibynnu ar ddŵr glân.

Ymhlith y mathau o lygredd sydd yn ein dyfroedd mae dŵr ffo sy'n cynnwys gwrteithiau a phlaladdwyr, gwastraff diwydiannol, carthion dynol a llawer iawn o blastig. Mae plastig yn achosi llawer o farwolaethau drwy i greaduriaid gael eu clymu ynddo a thrwy ddadelfennu'n ficroblastigau y gall creaduriaid lyncu llwythau enfawr ohonynt (gweler [Microplastics Toolbox A Rocha](#) am ragor o wybodaeth a syniadau ymarferol ar gyfer eglwysi).

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau glanhau dŵr yn amddiffyn gwe bywyd, ac mae'n anrhydeddu cyswllt symbolaidd Cristnogaeth â dŵr, o'r cwmwl a dywysai'r Israeliaid hyd yr afon a fedyddiodd Iesu. Gallai eich grŵp synio am eich taith i safle'r gweithgaredd glanhau fel pererindod sy'n eich cysylltu â sylfaeni ein ffydd.

Pob blwyddyn, bydd y gymuned ryngwladol yn uno i lanhau dyfrffyrdd. Bydd y glanhau rhyngwladol yn digwydd eleni ar 21 Medi, ond mae digwyddiad glanhau ar unrhyw ddyddiad yn werthfawr. Drwy gymryd rhan, byddwch yn rhwystro plastigau a defnyddiau niweidiol eraill rhag mynd i mewn i'r dŵr a'i gadwyn fwyd. Mae'r gweithgaredd hwn yn arbennig o addas ar gyfer teuluoedd.

I gyrraedd eraill o fewn eich eglwys, efallai y byddwch am gynnwys gwers ynghylch plastigau yng nghwricwlwm yr Ysgol Sul. Mae Rhwydwaith Amgylcheddol y Cymuned Anglicanaidd/Anglicaniaid Gwyrdd wedi llunio [Oceans of Plastics](#), sy'n wers Ysgol Sul sy'n anelu at gynorthwyo plant i ddeall



rhyfeddodau cefnforoedd Duw a'r difrod mae plastig yn ei wneud. Mae'r canllawiau'n cynnwys rhestr fer o gamau ymarferol y gallwn eu cymryd i warchod y moroedd a'r creaduriaid sy'n byw ynddynt.

Am ragor o wybodaeth ynghylch y Glanhau Arfordirol Rhyngwladol, ymwelwch â'r [Ocean Conservancy](#).

## Tyfu coeden

Mae coed o gymorth i ymladd newid yn yr hinsawdd, yn glanhau'r awyr rydym yn ei anadlu ac yn darparu cynefin ar gyfer llawer o fioamrywiaeth dirol y byd. Gall plannu coed a gofalu amdanynt wrth iddynt dyfu hefyd fod yn ffordd o ddathlu ymrwymiad ar y cyd eich cymuned i'r cread.

Ystyriwch gynnal digwyddiad plannu coed yn ystod Tymor y Cread sy'n cynnwys gwasanaeth gweddi. Fe geir enghraifft o wasanaeth gweddi [yma](#). Mae cyngor ynghylch dewis coeden a safle ar ei chyfer [yma](#). Os gallwch, dewiswch goeden o rywogaeth frodorol. Coeden felly fydd o'r budd mwyaf i bryfaid ac anifeiliaid eraill, gan gyfrannu tuag at iechyd yr ecosystem gyfan ar eich tir. Cofiwch weithio gyda'r rheolwr cyfleusterau a chyda'ch tîm eich hun i ofalu am y goeden ar ôl ei phlannu.

## Hybu byw mewn modd cynaliadwy

*Mae Tymor y Cread yn adeg wych i ystyried y modd mae ein ffyrdd o fyw'n effeithio ar yr amgylchedd ac i wneud ymrwymiad i fyw mewn ffyrdd mwy cynaliadwy. Y newyddion da yw y gallai gwneud dewisiadau mwy cynaliadwy ynghylch ffyrdd o fyw ond mewn ychydig o feysydd wneud gwahaniaeth mawr yn gyffredinol.*

## Lleihau eich ôl troed carbon

Anogwch eich cymuned i leihau ei heffaith ecolegol drwy ymuno â menter Byw'r Newid (*Living the Change*) yn ystod Tymor y Cread. Menter aml-grefydd yw [Byw'r Newid](#) sy'n cynorthwyo amrywiaeth o bobl sy'n arddel ffydd o gwmpas y byd i roi eu credoau a'u gwerthoedd ar waith drwy leihau eu hól troed carbon personol. Gyda'i gilydd mae'r ymdrechion hyn yn ymdrech dorfol i



gyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5°C uwchlaw'r lefelau cyn y chwyldro diwydiannol. Yn y pen draw, mae lleihau cynhesu byd-eang yn ffordd bwysig o warchod y planhigion a'r anifeiliaid yr effeithir arnynt gan yr anialdiroedd ehangach, yr hafau cynhesach a'r newid mewn glawiad sy'n dod gyda newid hinsawdd.

Dyma rai syniadau sut i ymuno â *Byw'r Newid*:

- ❑ Gwnewch addewid i roi eich credoau a'ch gwerthoedd ar waith drwy leihau eich allyriadau carbon personol yn [www.livingthechange.net](http://www.livingthechange.net).
- ❑ Ymrwymwch i gymryd camau ymarferol i newid eich ffordd o fyw o fewn un o'r tri maes sy'n cael effaith sylweddol, sef trafndiaeth, deiet ac ynni.
- ❑ Dysgwch sut mae gwneud newidiadau personol mewn ymateb i newid hinsawdd yn rhan o'n ffydd Gristnogol drwy weminarau *Living the Change*.
- ❑ Cynhaliwch Swper Byw'r Newid i drafod y ffydd Gristnogol a ffyrdd o fyw sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd gydag aelodau o'ch cymuned.
- ❑ Trefnwch ddigwyddiad Amser i Fyw'r Newid i annog lleihau ystyrllon ar olion troed carbon ac i ddathlu hynny.
- ❑ Gellir canfod gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer y gweithgareddau uchod ar wefan [www.livingthechange.net](http://www.livingthechange.net) neu yn [info@livingthechange.net](mailto:info@livingthechange.net).

*Deiet* : Hyrwyddwch ddefnyddio adnoddau mewn ffyrdd cynaliadwy drwy gymryd y camau hyn: a) bwyta llai o gig coch, b) prynu bwyd ecolegol a marchnad deg oddi wrth gynhyrchwyr lleol, c) lleihau gwastraff bwyd, ch) osgoi eitemau untro, d) osgoi defnyddio eitemau amlbro a dd) hybu pacio bwyd mewn defnyddiau amlbro (dim plastigau a thuniau yn y deiet dyddiol).

*Trafnidiaeth*: Hybu symudedd sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd drwy gefnogi symudedd cyfeillgar i'r hinsawdd a symudedd nad yw'n defnyddio tanwydd ffosil. Yn dibynnu ar eich cyd-destun: arddangos amserlenni cludiant cyhoeddus, defnyddio beiciau, rhannu cludiant, sefydlu un o'r systemau niferus rhannu ceir, gosod manau gwefru ar gyfer ceir trydan – neu – uwchlaw popeth: lleihau'r angen i symud drwy drefnu economi bywyd beunyddiol ar sail ranbarthol!



*Ynni:* Monitro'n defnydd o ynni o leiaf unwaith y flwyddyn ac anelu at newid yn llwyr i ddefnyddio ynni adnewyddadwy. Mae defnyddio ynni o danwydd ffosil yn niweidio'r hinsawdd.

*Defnyddiau:* Bod yn ymwybodol o'r ffordd rydym yn ymwneud â defnyddiau. Bob tro rydym yn prynu rhywbeth, rydym yn talu am y defnyddiau crai, y costau cynhyrchu a'r costau cael gwared â'r eitem ar ôl ei defnyddio. Mae'r broses o gaffael defnyddiau crai'n aml yn niweidiol iawn i bobl ac i'r amgylchedd. Gall newidiadau bach megis argraffu ar ddwy ochr papur wedi'i ailgylchu neu osgoi prynu ffonau symudol, cyfrifiaduron a gliniaduron bob blwyddyn neu ddwy gynorthwyo'r Ddaear i ymadfer. Meddyliwch am 'Jiwbilî i'r Ddaear' cyn prynu.

*Rhwydweithio:* "A thrachefn rwy'n dweud wrthy, os bydd dau ohonoch yn cytuno ar y ddaear i ofyn am unrhyw beth, fe'i rhoddir iddynt gan fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd." (Mathew 18:19) Gallwn gael mwy o effaith os byddwn yn gwneud pethau gyda'n gilydd! Codwn ein lleisiau ynghylch materion economaidd ac ecolegol yn ein cymunedau a thu hwnt.

## Gwneud newidiadau cynaliadwy ar lefel sefydliadol

Yn ogystal â gwneud newidiadau ar lefel bersonol fel y nodir uchod, gall newidiadau ar lefel sefydliadol hefyd fod yn arwyddocaol iawn ac arwain at leihau effeithiau amgylcheddol negyddol yn sylweddol.

Mae gwasanaethau a chyfleusterau sefydliad yn cynnig cyfle enfawr ar gyfer newid. Mae cynnal archwiliad ynni o'r adeilad yn fan cychwyn gwych a gall edrych ar feysydd allweddol megis gwresogi, goleuo, awyru ac insiwleiddio gynnig llawer o gyfleoedd i leihau'r ôl troed yn syth.

Yn ogystal, gall y tir mae'r sefydliad yn sefyll ynddo fod yn ffynhonnell newid amgylcheddol. Er enghraifft, gall rheoli mannau gwyrdd mewn ffordd feddylgar gynorthwyo i amsugno carbon o'r amgylchedd a gall hybu bioamrywiaeth yn lleol a hyd yn oed gynnig gofod ar gyfer garddio cymunedol.

Mae gan lawer o rwydweithiau eglwysig bellach blatfformau ac adnoddau i gynorthwyo eglwysi a chynulleidfaoedd sydd am wneud newidiadau i gyfeiriad cynaliadwyedd. Mae A Rocha wedi datblygu [Eco-Church](#). Mae'r [Mudiad Hinsawdd Catholig Byd-eang](#) yn datblygu *Laudato Si' Action Platform*, a fydd yn





cynorthwyo sefydliadau a theuluoedd Catholig i adolygu eu heffaith ac i weithredu ar draws nifer o feysydd.

## **Ymarfer y Llwybr ar gyfer Cynulleidfaoedd, Cymunedau ac Eglwysi tuag at Economi Bywyd a Chyfiawnder Ecolegol**

Gwahoddwch eich cynulleidfaoedd, eich cymunedau a'ch eglwysi i drafod a gweithredu rhaglen pum cam Cyngor Eglwysi'r Byd i newid y ffordd rydym yn ymdrin â'r economi a'r amgylchoedd ecolegol o'n cwmpas. Gellir canfod gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau'r Llwybr ar wefan Cyngor Eglwysi'r Byd: <https://www.oikoumene.org/en/resources/documents/wcc-programmes/diakonia/economy-of-life/roadmap-for-congregations-communities-and-churches-for-an-economy-of-life-and-ecological-justice>.



# Eiriolaeth: Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd sy'n galw am adferiad

Mae'r thema '**Jiwbilî i'r Ddaear**' yn amlygu'r berthynas hanfodol rhwng diogelwch economaidd, cynaliadwyedd ecolegol, llesiant cymdeithasol a pherthynas gyfiawn rhwng pobl a rhwng pobl â'r Ddaear. Egwyddor yn seiliedig ar gyfiawnder yw Jiwbilî sy'n cyfleu ewyllys Duw ar gyfer byw'n dda fel y gall pob creadur ffynnu fel unigolyn ac o fewn cymdeithas. Noda N T Wright: "Mae Jiwbilî yn ymateb i angen cymdeithasol ac economaidd ond ni ellir ei deall na'i harfer heb yr egwyddorion diwinyddol ac ysbrydol sy'n rhan annatod ohoni."

Mae COVID-19 wedi dwysau'r anghydraddoldebau o fewn economi oedd eisoes yn anghyfiawn. Pan fydd yr argyfwng iechyd uniongyrchol drosodd bydd raid i gamau adfer ganolbwyntio ar adeiladu economi gyfiawn, gynaliadwy a chadarn. Mae'r argyfwng COVID-19 yn tanlinellu'r angen i adfer rhythmau iachusol yn fwy nag erioed.

Rydym yn galw am eiriol ar frys dros gyfiawnder hinsawdd, wedi'i wreiddio mewn adferiad ar gyfer y Ddaear a'i holl bobl. Mae angen ymdrin â gwaith adfer yn dilyn argyfwng COVID-19 ar y cyd â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae egwyddor Jiwbilî'n dychmygu patrymau cynaliadwy o ddatblygu economaidd sy'n creu cymunedau teg, iach a diogel ar gyfer pawb gan ar yr un pryd gyfyngu ar larpio adnoddau a thwf economaidd anghynaliadwy.

Ym 2018, nododd y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) beryglon difrifol parhau ar hyd llwybrau presennol cynhesu byd-eang. Roedd yr adroddiad yn datgan yn eglur y byddai'n rhaid, er mwyn cyfyngu ar gynhesu byd-eang i 1.5°C, dorri arylliadau o hanner erbyn 2030 a hyd sero-net erbyn 2050. Er mwyn cyrraedd y targed hwnnw, rhaid i ni roi'r gorau i ehangu echdynnu tanwyddau ffosil a symud yn gyflym tuag at ynni adnewyddadwy.

Rydym yn dadlau dros gyllido hinsawdd cyfiawn. Mae gan rai gwladwriaethau ymhlith gwledydd y De arylliadau y pen isel erioed, eto maent yn dioddef yn eithafol o effeithiau newid yn hinsawdd. Mae argyfyngau hinsawdd yn diddymu isadeileddau cyfan a rhaid i wledydd fenthyg mwy er mwyn ailadeiladu. Creodd



ecsploetio'r De yn y gorffennol (gan sicrhau llafur rhad a defnyddiau crai rhad ar gyfer diwydiannu) yr anghydraddoldeb a'r tloidi dybryd a welwn ledled y byd heddiw. Dylid ystyried cyllido hinsawdd nid fel 'cymorth' ond fel cyflawni cyfrifoldeb hanesyddol i weithredu cyfiawnder adferol - **Jiwbilî**.

"Siarad yn eglur, a rho farn gyfiawn; cefnoga achos yr anghenus a'r tlawd" (Diarhebion 31:9). Sut allwn ninnau fel cymunedau ffydd godi llais dros gyfiawnder yn y meysydd hyn? Dyma rai pethau y gallem alw amdanynt:

- ❑ **Galw am jiwbilî dyled.** Pob dyled allanol sy'n daladwy yn 2020 i'w ddiddymu yng ngoleuni effeithiau difrifol yr argyfyngau iechyd a'r argyfyngau cymdeithasol ac economaidd y bu'n rhaid i wledydd eu hwynebu o ganlyniad i COVID-19.
- ❑ **Achub pobl nid llygrwyr.** Ni ddylai pecynnau ysgogi economaidd yn dilyn argyfwng COVID-19 achub croen diwydiannau sy'n llygru ond buddsoddi yn hytrach mewn pobl a swyddi teilwng, gan ganolbwyntio ar y bobl fwyaf bregus ar y blaned.
- ❑ Rhaid i'r holl wledydd fabwysiadu **targedau cenedlaethol mwy uchelgeisiol** i leihau arylliadau erbyn diwedd 2020 er mwyn cyfyngu ar y cynnydd yn y tymheredd i ddim mwy na 1.5°C.
- ❑ Rhaid i wledydd cyfoethocach **gynyddu'r grantiau ar gyfer addasu, lliniaru a cholledion a difrod** mewn gwledydd sy'n datblygu.
- ❑ Dod â chymorthdaliadau ar gyfer tanwydd ffosil a buddsoddi mewn ehangu cloddio am danwyddau ffosil i ben. Mae **dadfuddsoddi** mewn cwmnïau tanwydd ffosil a buddsoddi mewn datrysiadau hinsawdd cyfiawn yn gam cryf y gall pob gweithredydd, gan gynnwys sefydliadau ffydd, ei gymryd i anfon arwydd grymus bod rhaid i oes tanwydd ffosil ddod i ben fel mater o frys.
- ❑ Cefnogwn alwad y Cenhedloedd Unedig i **warchod 30% o'r Ddaear fel cynefinoedd gwarchodedig erbyn 2030** er mwyn atal colli bioamrywiaeth ar gyflymder dychrynlyd.
- ❑ Cadarnhawn yr hawl ddynol i **fwyd, dŵr yfed glân a glanweithdra diogel.** Ymrwymwn i geisio **lleihad cyflym yn y defnydd o blastigau untro**, gan annog gwledydd unigol i'w gwahardd, ac i hybu economi gylchol.



- ❑ Cefnogwn roi'r **Nodau Datblygiad Cynaliadwy** ar waith yn lleol ac yn rhyngwladol.

*Wrth ufuddhau i'n galwad broffwydol i lefaru'r gwir wrth y grymus, rydym yn tyfu mewn cariad a nerth. Mae'r canlynol yn ffyrdd y gallwch chithau eiriol dros adnewyddu drwy ddulliau cyfiawn ein cartref ar y cyd.*

## 1. Trefnu ymgyrch fel cymuned ffydd

Cadwch olwg ar ein [gwefan Tymor y Cread](#) a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol am y calendr byd-eang o ddigwyddiadau a chofiwch y rhai a gynhwysir yn y Llawlyfr Dathlu hwn. Cefnogwch y rhai sy'n cynnwys eirioli ac anogwch eich eglwysi lleol i gynnwys eiriol dros un neu ragor o faterion ymhlith eu digwyddiadau hwythau. [Cofrestrwch hwy ar y wefan](#). Dyma rai syniadau:

- ❑ Rasys rhedeg a beicio, gweithgareddau chwaraeon dan arweiniad pobl ifanc, gwasanaethau a gwylnosau yn yr eglwysi, gweithgareddau glanhau a gweithgareddau plannu coed er mwyn codi ymwybyddiaeth o anghyfiawnder hinsawdd – gwahoddwch arweinwyr cymunedol, cynrychiolwyr llywodraeth a busnesau i gymryd rhan.
- ❑ Trefnwch gystadlaethau tynnu lluniau, barddoni neu beintio yn yr eglwysi ac yn y gymuned i gyfleu'r newidiadau yn eich cymuned yn dilyn COVID-19 a gweledigaeth o ddyfodol mwy cyfiawn.
- ❑ Defnyddiwch Dymor y Cread i drafod sut gall eich eglwys leihau ei hól troed carbon. Gall unigolion ymrwmo i wneud yr un modd yn eu gwaith neu yn y cartref. Edrychwch am ffyrdd o wneud hynny [yma](#).

## 2. Ymuno â gweithgareddau eirioli ar-lein

Dilynwch yr ymgyrch ar ein tudalennau [Gweplyfr](#) a [Trydar](#), ac ychwanegwch at ein **advocacy asks** ar eich llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eich hun drwy ddefnyddio'r hashnod #SeasonofCreation. Hefyd, ymunwch â [grŵp cyhoeddus Tymor y Cread](#) i dderbyn diweddariadau ysbrydoledig ac i rannu eich digwyddiadau a'ch profiadau chithau.



- ❑ Rhannwch ffotograffau, cerddi a darluniau am newidiadau yn eich cymuned ar ôl COVID er mwyn adrodd hanes natur o'ch cwrpas a'ch perthynas chi â'r cread.
- ❑ Ysgrifennwch flog ynghylch y gweithgaredd wnaethoch chi ei drefnu neu gymryd rhan ynddo, neu ynghylch arwyddocâd Amser y Cread i chi, a'i rannu â ni.

### 3. Ymuno ag ymgyrchoedd eirioli

- ❑ Y Gadwyn Weddi a Gweithredu Fyd-eang ar gyfer Cyfiawnder Hinsawdd <https://www.prayandact4climate.org/>
- ❑ Ymgyrch Gweithredu Nawr ar gyfer Cyfiawnder Hinsawdd <https://actalliance.org/climatejustice/>
- ❑ Ymgyrch y *Big Shift* <https://bigshiftglobal.org/>
- ❑ Ymunwch â'r prosiectau cymunedau gleision <https://www.blueplanetproject.net/index.php/home/water-movements/the-blue-communities-project/>
- ❑ Gwarchod bioamrywiaeth gyda'r Gronfa Fyd-eang ar gyfer Natur: <https://explore.panda.org/newdeal>
- ❑ Y Cytundeb Byd-eang ar gyfer Natur, gyda'r nod o warchod 30% o'r gofod gwyllt erbyn 2030. Yn ystod y Tymor eleni, ystyriwch gefnogi mentrau fel y [Cytundeb Byd-eang ar gyfer Natur](#) neu ddeisebau eraill i warchod bioamrywiaeth.
- ❑ Yr ymgyrch dadfuddsoddi: [Y Mudiad Hinsawdd Catholig Byd-eang](#) ac [ymgyrch \*Bright Now Operation Noah\*](#). Gall buddsoddwyr hefyd asesu pa mor dda mae unrhyw gwmni wedi paratoi ar gyfer yr economi carbon isel drwy ddefnyddio offeryn asesu gan y [Transition Pathway Initiative](#).

### 4. Ymuno â mudiad

Mae pobl ifanc a'u cefnogwyr o bob oed yn dod ynghyd i gynnal streiciau byd-eang yn y symudiad a elwir yn **Ddyddiau Gwener ar gyfer y Dyfodol**. Ewch i [Fridays for Future](#) neu i [Laudato Si' Generation](#), y mudiad o Gatholigion ifanc, am fwy o wybodaeth ynghylch y streiciau.



Gallwch annog gweithredu ynghylch newid hinsawdd, i warchod bioamrywiaeth neu i hybu Jiwbilí ar gyfer eich amgylchedd lleol drwy gynnal streic yn eich cymuned chi neu ymuno â streic a drefnwyd eisoes.



# Calendr digwyddiadau byd-eang

O ganlyniad i fesurau diogelu iechyd y cyhoedd yn ystod y pandemig, cafodd llawer o gyfarfodydd ledled y byd eu gohirio neu eu cynnal ar ffurf wahanol. Mae'r sefyllfa'n newid o wythnos i wythnos, a bydd yn parhau'n ansicr yn ystod Tymor y Cread eleni. [Gwiriwch ar y wefan](#) am ddiweddariadau ac am gyfleoedd i gyfranogi mewn digwyddiadau byd-eang ar-lein. Er bod pob cymuned Gristnogol o gwmpas y byd yn dathlu Tymor y Cread yn ei ffordd ei hun, mae rhai digwyddiadau'n cynnig cyfleoedd i glymu'r holl gymunedau ynghyd.

## 1 Medi: Dydd y Cread / Dydd Gweddi Byd-eang dros y Cread

Dydd y Cread, a elwir hefyd yn Ddydd Gweddi Byd-eang dros y Cread, sy'n agor y Tymor bob blwyddyn. Mae'r Pab Ffransis, y Patriarch Bartholomew, Cyngor Eglwysi'r Byd a llawer o arweinwyr eraill wedi galw ar y ffyddloniaid i ddathlu'r dydd hwn. Ledled y byd, gwahoddir Cristnogion i ymuno â'r gwasanaeth gweddi ar-lein i gyd-ddathlu ein hachos cyffredin yn llawen. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf ar gael ar [SeasonofCreation.org](#).

## 21 Medi: Dydd Rhyngwladol Glanhau'r Glannau

Ers dros 30 mlynedd, mae cymunedau wedi dod ynghyd i symud sbwriel o'r glannau a dyfrffyrdd, gan gynnwys pyllau, llynnoedd ac afonydd. Gyda'i gilydd, mae'r gwirfoddolwyr hyn yn catalogio'r mynyddoedd o sbwriel maent yn cael gwared arno bob blwyddyn. Gwahoddir eich cymuned chi i ymuno. I ddysgu mwy, ymwelwch â'r [Ocean Conservancy](#).

## 4 Hydref: Gŵyl Sant Ffransis

I lawer o draddodiadau mae Sant Ffransis yn ysbrydoliaeth ac yn esiampl i'r rhai sydd am warchod y cread. Ei Ddydd Gŵyl yw 4 Hydref, a dyna ddiwrnod olaf Tymor y Cread. Daw'r ffyddloniaid ledled y byd ynghyd mewn gwasanaeth gweddi ar-lein i fyfyrto am y modd mae Sant Ffransis wedi dylanwadu ar eu taith ysbrydol ac i ddathlu ein taith gyda'n gilydd drwy'r Tymor. Gallwch ganfod



gwybodaeth cofrestru ar gyfer y gwasanaeth gweddi ar-lein ar [wefan Tymor y Cread](#) ac ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Ymunwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol

*Ymunwch â ni mewn gweddi a myfyrdod a rhannwch newyddion cyffrous ynghylch eich dathliad ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae cymuned gefnogol fyd-eang yn ymffurfio ar y Gweplyfr a Trydar.*

Ymunwch â'r gymuned fyd-eang drwy ddefnyddio'r hashnod #SeasonOfCreation ar Trydar, Instagram, a'r Gweplyfr. Bydd postiau gyda'r hashnod yn ymddangos ar [wefan Tymor y Cread](#).

Fe'ch gwahoddwn i hoffi neu ddilyn tudalennau [Gweplyfr](#) a [Trydar](#) Tymor y Cread, yn ogystal ag ymuno â [grŵp cyhoeddus Tymor y Cread](#) i gael diweddariadau ysbrydoledig ac i ymuno â'r drafodaeth.





# Ynghylch Tymor y Cread

Tymor y Cread yw'r adeg o'r flwyddyn pan wahoddir y 2.2 biliwn o Gristnogion ledled y byd i weddio dros y cread. Mae'n digwydd yn flynyddol o 1 Medi hyd 4 Hydref.

Mae Tymor y Cread yn uno'r teulu Cristnogol ar draws byd o gwmpas un nod cyffredin. Mae hefyd yn cynnig hyblygrwydd o safbwynt trefniadau gwasanaethau gweddi a gweithredu mewn amrywiaeth o ffyrdd i ofalu am y greadigaeth.

## Hanes

Cyhoeddodd y Patriarch Eciwmenaid Dimitrios I y byddai 1 Medi yn Ddydd Gweddi dros y Cread yn yr Eglwys Uniongred Ddwyreiniol ym 1989.

Mabwysiadwyd yr achlysur gan rai o'r prif Eglwysi Cristnogol eraill yn Ewrop [yn 2001](#), a chan y Pab Ffransis ar gyfer yr Eglwys Gatholig Rufeinig [yn 2015](#).

Yn fwy diweddar, mae llawer o Eglwysi Cristnogol wedi dechrau dathlu 'Tymor y Cread' (a elwir hefyd yn Amser y Cread) rhwng 1 Medi a 4 Hydref, sef Gŵyl Sant Ffransis ar gyfer rhai traddodiadau Gorllewinol. Sant Ffransis yw awdur Cantigl y Creaduriaid, ac ef yn y traddodiad Catholig yw Nawddsant y rhai sy'n hyrwyddo ecoleg.

Mae sawl datganiad o'r blynyddoedd diwethaf wedi galw ar y ffyddloniaid i gadw'r Tymor hwn dros fis, megis rhai gan Esgobion Catholig Ynysoedd y Philipinau [yn 2003](#), Trydydd Cynulliad Eciwmenaid Ewrop yn Sibiu [yn 2007](#) a Chyngor Eglwysi'r Byd [yn 2008](#).

## Y Pwyllgor Llywio

Wrth i'r angen am ddatrys yr argyfwng amgylcheddol barhau i gynyddu, galwyd ar eglwysi Cristnogol i ymateb ynghyd mewn ffordd amlycach. Daeth Pwyllgor Llywio Eciwmenaid Tymor y Cread ynghyd i ddarparu adnoddau i rymuso



**TYMOR Y  
CREAD**

Cristnogion i ymateb i alwad ein ffydd, pob un yn unol ag arfer ei (h)enwad neu ei r(h)wydwaith ei hun, yn ystod y Tymor hwn o fyfyrion a gweithredu ar y cyd.

Ar y Pwyllgor Llywio, mae cynrychiolwyr o Gyngor Eglwysi'r Byd, Ffederasiwn Lutheraidd y Byd, Y Cynghrair Efengylaidd Byd-eang, Y Mudiad Hinsawdd Catholig Byd-eang, Rhwydwaith Amgylcheddol y Cymuned Anglicanaidd, Rhwydwaith Gofal am y Cread Lausanne, Cymuned Eglwysi Diwygiedig y Byd, Rhwydwaith Amgylcheddol Cristnogol Ewrop a Chymorth Cristnogol.

Fel rhwydwaith eciwmenaidd, fe'n hysbrydolir gan alwad y Pab Ffransis, *Laudato Si'*, "am ddeialog newydd ynghylch y modd rydym yn lliwio dyfodol ein planed" gan nodi bod "angen cydsafiad byd-eang newydd arnom" lle cynorthwyr y rhai mwyaf bregus a'u galluogi i fyw mewn urddas. Fe'ch gwahoddwn i ymuno â ni yn yr ymdrechion hynny.

**actalliance**



**THE GLOBAL CATHOLIC CLIMATE MOVEMENT**

european christian **environmental** network

**Lausanne/WEA**  
Creation Care Network



**THE LUTHERAN WORLD FEDERATION**



**World Council of Churches**



**World Communion of Reformed Churches**



# Cyfranwyr

*Rydym yn ddiolchgar i'r canlynol am gyfrannu tuag at lunio, adolygu a golygu'r cyhoeddiad hwn.*

Arnold Ambundo, Act Alliance

Y Doethor Louk Andrianos, Cyngor Eglwysi'r Byd

Y Doethor Dave Bookless, A Rocha

Ed Brown, Care of Creation a Chatalydd Lausanne ar gyfer Gofalu am y Cread

Cecilia Dall'Oglio, Y Mudiad Hinsawdd Catholig Byd-eang

Y Doethor Celia Deane-Drummond, Sefydliad Ymchwil Laudato Si', Neuadd  
Campion, Prifysgol Rhydychen

Reba Elliott, Y Mudiad Hinsawdd Catholig Byd-eang

Henrik Grape, Cyngor Eglwysi'r Byd

Y Doethor Hefin Jones, Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd

Christina Leano, Y Mudiad Hinsawdd Catholig Byd-eang

Y Parchedig Ddoethor Rachel Mash, Anglicaniaid Gwyrdd / Rhwydwaith  
Amgylcheddol y Cymundeb Anglicanaidd

Y Parchedig Ddoethor Chad Rimmer, Ffederasiwn Lutheraidd y Byd

John Paul Roberts, Anglicaniaid Gwyrdd

Y Doethor Paulo Ueti, Y Cynghair Anglicanaidd

Y Canon Ddoethor Ruth Valerio, Cyfarwyddwr, Tearfund

Abena Afari, Cymorth Cristnogol

